



# Clwb Rotari Gororau Croesoswallt - Ardal Rotari 1180 -



## GWOBR ARWEINYDDIAETH IEUENCTID ROTARI

2<sup>il</sup> Chwefror 2017

Annwyl fyfyrwr GAIR arfaethedig,

Bob blwyddyn, fe noddir tua 10,000 o bobl ifanc gan glybiau Rotari drwy raglenni GAIR mewn mwy na 25 o wledydd dros y byd. Mae llawer o glybiau yn eich Cylch Rotari (1180) yn cefnogi GAIR 2017, sef cwrs preswyl a gynhelir eleni yng nghanolfan addysg awyr agored Arthog yng Ngwynedd o ddydd Sul, 20<sup>fed</sup> Awst i ddydd Gwener 25<sup>ain</sup> Awst. Bydd y gost o £425 am bresenoldeb pob myfyrwr ar y cwrs yn cael ei noddi gan glwb Rotari a gobeithiwn y bydd y digwyddiad yma yn gymhelliaid i hybu a datblygu eich doniau fel arweinwyr a'ch sgiliau fel aelodau o dîm. Bydd 36 o bobl ifanc o ardal eang ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru, Swydd Amwythig, Swydd Gaer, Cilgwi a Glannau Merswy yn cymryd rhan.

Prif amcan y cwrs yw rhoi cyfle i bobl ifanc 16, 17 ac 18 oed i gael gwell dealltwriaeth o brif agweddau eu datblygiad personol wrth drawsnewid o fywyd ysgol i addysg uwch neu ddechrau gyrfa. Dros y 18 mlynedd diwethaf, rydym wedi llwyddo i helpu dros 500 o fyfyrwyr trwy'r broses yma, gyda chanlyniadau cadarnhaol iawn, yn enwedig o ran cyfweiliadau dilynol.

Byddwch yn gweithio mewn tîm o 8 i ddeg myfyrwr na fyddwch wedi eu cyfarfod o'r blaen, gan gwblhau tasgau heriol a osodir gan diwtoriaid y cwrs; pob un ohonynt yn hyfforddwr profiadol o ystod eang o'r gymuned fusnes a masnach. Mae'r hyfforddwr awyr agored yn Arthog i gyd yn Arweinwyr Mynyddig cymwys a darperir yr holl gyfarpar sydd ei angen ar gyfer y gweithgareddau gan y Ganolfan Addysg

Awyr

Agored.



Mae'r pecyn yn cynnwys yswiriant rhag damweiniau personol heb unrhyw gost i'r myfyrwyr. **Fodd bynnag, bydd raid i chi ddweud wrthym am unrhyw gyflwr meddygol a all olygu anghenion gofal arbennig mewn ymborth neu weithgareddau a gyflawnir. Gall peidio rhoi gwybod am gyflwr meddygol olygu na fydd eich yswiriant yn ddilys.** Peidiwch â gadael i unrhyw gyflwr eich rhwystro rhag cymryd rhan. Rydym ni a Chanolfan Arthog wedi darparu ar gyfer ystod eang o faterion yn y gorffennol; tydi hi'n costio dim i ofyn yn gyfrinachol i drefnwyr y cwrs.

### **Trosolwg o'r Cwrs:**

#### Cost i'r Myfyriwr:

Mae'r tâl o £425 am y cwrs preswyl yn cael ei ysgwyddo gan y Clwb sy'n noddi'r myfyriwr. Gofynnir am flaendal o £30 gan bob myfyriwr i sicrhau fod lle'n cael ei neilltuo ar eu cyfer. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd o ymrwymiad myfyrwyr ac yn lleihau'r tebygrwydd o absenoldeb; mae hyn yn rhywbeth sydd wedi digwydd o'r blaen gan achosi colledion i glybiau oedd yn noddi. Gofynnir i chi wneud y blaendal erbyn Mai 31<sup>ain</sup>; yn daladwy i "**Rotary Club of Oswestry Borderland**". Ni ddychwelir y blaendal ac fe'i defnyddir i sicrhau eich lle yn y Ganolfan. Rhoddir y £30 ar ran GAIR yn y pendraw i brynu blychau lloches ("Shelterbox"); prosiect yw hwn a sefydlwyd gan Rotari i helpu cymunedau unrhyw le yn y byd sydd wedi dioddef o ganlyniad i drychinebau naturiol. Pob blwyddyn, fe delir am o leiaf un blwch lloches gyda blaendal pob myfyriwr. Mewn achosion eithriadol, dychwelir y blaendal yn dilyn cais cyfrinachol i'r trefnydd, Paul Crosby. Mae pob tiwtor a hyfforddwr yn rhoi eu hamser yn wirfoddol a di-dâl.

#### Datblygiad Personol:

Os a phan fydd eich lle ar y cwrs wedi ei gadarnhau, byddwn yn gofyn i chi gwblhau holiadur byr er mwyn cael dealltwriaeth o ba swyddogaeth(au) fyddwch yn debygol o'u ffafrio o fewn tîm. Bydd y wybodaeth yma yn galluogi'r trefnwyr i gynllunio pedwar tîm, pob un yn cynnwys aelodau hefo amrywiaeth o briodweddau a doniau.

#### Cynllun Gwobr Dug Caeredin:

Os ydych eisoes yn cymryd rhan ar unrhyw lefel – Efydd, Arian neu Aur, neu os hoffech ddechrau'r cynllun gwobrwyo, mae'r digwyddiad yma yn gymwys ar gyfer yr adran "Breswyl" o'r wobr lefel Aur. **Bydd angen i chi fod wedi cofrestru am y cam Aur o'r wobr cyn dod ar y cwrs GAIR.** Os hoffech wneud hyn er mwyn i'r cwrs fod o fudd ychwanegol i chi, yna dewch a llyfr cofnod cam Aur hefo chi os gwelwch yn dda, a dweud wrth hwylysydd eich tîm ar ddechrau'r cwrs GAIR.

#### Cyrraedd a Gadael

Eich cyfrifoldeb chi fydd trefnu cludiant i Ganolfan Arthog ac oddi yno. Yn aml bydd myfyrwyr yn rhannu cerbydau, ac mewn rhai achosion, bydd clybiau Rotari yn gallu helpu. Gellir trefnu hyn yn agosach i'r dyddiad, a byddwn yn helpu os bydd angen.

Cyrraedd: Dydd Sul 20<sup>fed</sup> Awst 2017 **rhwng** 15:00 a 16.30 (ar yr hwyraf)

16.30 – Dyraniad Ystafelloedd a Thimau

18:00 – Barbiciw

19:00 - Dyraniad Cit – cyflenwir yr holl git angenrheidiol, gan gynnwys esgidiau os bydd angen

19:30 – Cwrs yn dechrau

Gadael: Dydd Gwener 25<sup>ain</sup> Awst 2017 am 14:00 – 15:00

Sylwer: Bydd aelod o'r cwrs yn bresennol hyd nes y bydd y myfyriwr olaf wedi gadael.

### Prydau Bwyd

Darperir tri phryd bwyd gan y ganolfan yn ddyddiol: brecwast wedi ei goginio, pecyn cinio, a swper wedi ei goginio (nid ydym erioed wedi derbyn unrhyw gwyn). Gellir arlwyo ar gyfer unrhyw anghenion bwyd arbennig cyn belled ag eich bod yn gadael i ni wybod ymlaen llaw.

### Rhestr Cit

Byddwn yn paratoi rhestr o'r hyn fydd angen i chi ddod gyda chi, gan gynnwys dillad gwely: cynfas i roi dros fatres y gwely, ynghyd a chas gobennydd a gorchudd duvet.

### Cyflyrau Meddygol - datganiad

Mae llawer o fyfyrwyr yn mynychu Arthog bob blwyddyn, rhai hefo ystod eang o gyflyrau meddygol; gellir addasu'r cwrs ar gyfer y rhan fwyaf ohonynt. Fodd bynnag, mae'n hanfodol i chi adael i ni wybod ymlaen llaw fel y gallwn wneud asesiad o'r risg a pharatoi cynllun ar eich cyfer. Mae peidio datgan cyflwr meddygol yn fater difrifol a gall olygu na fydd y polisi yswiriant yn ddilys ar eich cyfer pe baech yn cael niwed, er mor annhebygol yw hynny. Os byddwn yn darganfod yn ystod y cwrs fod myfyrwyr wedi atal gwybodaeth am gyflwr meddygol yn fwriadol, gellir diarddel yr unigolion oddi ar y cwrs heb eu digolledu. Byddwch yn derbyn ffurflen i roi caniatâd rhiant neu warcheidwad cyn i chi gael eich derbyn ar y cwrs; dyma'r man i ddatgan unrhyw gyflyrau meddygol. Hefyd, gallwch gael sgwrs gyfrinachol hefo trefnydd y cwrs - Paul Crosby, fydd yn eich cynghori.

### Myfyrwyr nad ydynt yn nofio

Mae rhai o weithgareddau'r cwrs yn digwydd ar ddŵr mewndirol gyda chymorth hynofedd gorfodol. Mae llawer o fyfyrwyr nad ydynt yn medru nofio yn hollol hyderus yn y dŵr hefo'r offer cymorth yma, ond mae rhai ag ofn cynhenid o ddŵr. Gallwn addasu ar gyfer hyn cyn belled ag ein bod yn cael gwybod ymlaen llaw. Yn aml, mae'r cwrs yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr i oresgyn eu hofnau, ond bydd rhyddid iddynt benderfynu drostynt eu hunain.

### Ysmygu

Mae manau ysmygu neilltuol yn y ganolfan ar gyfer myfyrwyr sy'n gymwys i ysmygu'n gyfreithlon. Glynir yn llym at bolisi dim ysmygu yn ystod gweithgareddau'r cwrs.

## Ffonau Symudol

Wrth gwrs, caniateir i fyfyrwyr ddod a'u ffonau symudol hefo nhw, ond yn naturiol bydd cyfyngiadau ar eu defnydd yn ystod amser gweithgareddau'r cwrs. Cyfrifoldeb y myfyrwyr fydd eiddo personol fel ffonau symudol ac ni roddir iawndal am unrhyw ddifrod iddynt neu am eu colli yn ystod amser y cwrs yn Arthog rhwng dydd Sul 20<sup>fed</sup> Awst a dydd Gwener 25<sup>ain</sup> Awst.

## Lleoliad

Mae Canolfan Addysg Awyr Agored Arthog wedi ei lleoli ychydig i'r De o Arthog ar yr A493 a 7 milltir i'r De Orllewin o Ddolgellau ar ffordd Tywyn.

## Cyfeiriad:

Canolfan Addysg Awyr Agored.  
Arthog, Gwynedd, LL39 1BX

Ffon: 01341 250455

## **Sicrwydd Yswiriant**

Mae gan Ganolfan Arthog yswiriant atebolrwydd trydydd parti sy'n rhoi sicrwydd i fyny at werth o £25 miliwn. Darperir yswiriant sylfaenol am ddamweiniau personol gan yswiriwr Rotari Rhyngwladol (RIBI) dros bob myfyriwr yn ystod gweithgareddau'r cwrs.

Mae'n hanfodol fod trefnydd y cwrs, Paul Crosby, yn cael gwybod am unrhyw gyflwr meddygol sy'n bodoli eisoes. Dylid ei hysbysu am hyn trwy'r ffurflen ganiatâd rhiant neu warcheidwad, neu trwy drafodaeth gyfrinachol hefo fo cyn y cwrs. Gall methu gwneud hyn olygu na fydd eich yswiriant yn ddilys. Os darganfyddir hyn yn ystod y cwrs, gall hyn arwain at eich diarddel oddi ar y cwrs yn syth.

## Tystysgrifau GAIR (RYLA)

Unwaith y bydd myfyrwyr wedi cwblhau'r cwrs, byddant yn gymwys i gael eu gwobrwyo hefo Tystysgrif Rotari Rhyngwladol RYLA. Cyflwynir y dystysgrif gan Lywydd y clwb Rotari fydd yn eich noddi mewn cyfarfod a drefnir ar ddyddiad cyfleus i ddatlu eich llwyddiant. Anogir rhieni, gwarcheidwaid ag athrawon i fynychu'r dathliad fel gwsteion y Clwb Rotari. Bydd y dystysgrif yn ychwanegiad gwerthfawr at eich portffolio o ddatblygiad ar gyfer cais i goleg, prifysgol neu am waith yn y dyfodol.

Paul Crosby – Clwb Rotari Gororau Croesoswallt  
Trefnydd Ardal RYLA  
[paul.crosby@btinternet.com](mailto:paul.crosby@btinternet.com)

Ffon: 01691 658606  
Symudol: 07980 812755

Cyfeiriad: Southgate, Trefonen, Croesoswallt. SY10 9DJ